PET(4) WPI 49
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Elin Tudur

Mae gennym hanes yng Nghymru o ymrwyniad cryf i heddwch. Mae sawl enghraifft ac yn eu mysg y mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da a drefnir gan yr Urdd yn flynyddol at bobl ifanc y byd. Eleni buom yn cofio cychwyn y daith gyntaf i Gomin Greenham a drefnwyd gan fenywod o Gymru, ac o Gaerdydd yn benodol. Sefydlwyd y Deml Heddwch gan yr Arglwydd David Davies, Llandinam gyda'r nod o hyrwyddo gweithgarwch heddwch ac iechyd. Ac mae'r gwaith hwnnw yn parhau hyd heddiw.

Mae llu o fudiadau gwirfoddol a dyngarol yn gweithio dros heddwch yng Nghymru a bellach mae gennym ein llywodraeth ein hunain yma yng Nghymru. Sefydlwyd ein Cynulliad Cenedlaethol i ddelio gyda materion sy'n effeithio ar bobl Cymru. Ond nid oes ganddi'r pwerau i ffurfio polisi 'amddiffyn' i Gymru. Ni allwn felly wireddu unrhyw ddyheadau a daliadau sydd gennym fel cenedl dros heddwch. Llywodraeth y DU sydd â'r gair olaf ynglŷn ag unrhyw benderfyniadau milwrol, boed hynny ar ein tir ni neu yn rhyngwladol.

Fel mae'r ymrwymiad i ddatblygu cynaladwy wedi llywio gwaith y Cynulliad, byddai Academi Heddwch yn codi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau'r Cynulliad am effaith polisiau a phenderfyniadau sy'n perthyn i feysydd milwrol, arfau a gwrthdaro ar Gymru a gweddill y byd. Byddai sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru, a fyddai'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ond yn annibynnol iddi yn annog trafodaethau amgenach na thrafodaethau economaidd yn unig; byddai'n annog trafodaeth ar effaith datblygiadau ar bob agwedd o'n diwylliant, ein economi a'n hamgylchedd a delwedd Cymru yn y byd. Gallai Academi Heddwch ymchwilio i effaith penderfyniadau gwleidyddol, a swyddogaeth y llywodraeth mewn helpu i adeiladu heddwch rhyngwladol.

Ac nid yw heddwch yn golygu'r sefyllfa'n rhyngwladol yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth a hawl pob dinesydd i fyw ac i ymarfer eu creodau a'u diwylliannau yn rhydd. Diddorol oedd clywed ychydig ddyddiau'n ôl am apêl yr Imam yn y Mosgau yng Nghasnewydd am ddileu eithafiaeth ymysg ieuenctid Mwslemaidd y ddinas, a phwysleisio neges heddychiaeth y grefydd Fwslemaidd. Mae gwir angen cyd-ddealltwriaeth a chyd-oddefgarwch ymysg ein pobl yma yng Nghymru. Gwyddom oll am beryglon eithafiaeth a diffyg goddefgarwch ymysg gwahanol garfannau yn ein cymdeithas a'n cymunedau crefyddol.

Mae addysg yn holl bwysig ac mae'n rhaid cychwyn wrth ein traed. Byddai Academi Heddwch yn chwarae rôl amlwg mewn addysg ac astudiaethau heddwch, yn hyrwyddo gwerthoedd di-drais ac adeiladu cysylltiadau rhyngwladol. Gan fod Addysg mewn Ddinasyddiaeth Fyd Eang a Datblygu Cynaliadwy eisoes ar y cwricwlwm, byddai Academi o'r fath yn gallu gwneud cyfraniad pwysig.

Yn seremonïau'r Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol gofynnir y cwestiwn "A oes heddwch?" Gydag Academi Heddwch fe allem fel cenedl ateb, gyda hyder, ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i'w sicrhau.